**HYSBYSIAD CADARNHAU GORCHYMYN LLWYBR CYHOEDDUS**
**DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990, ADRAN 257**
**A PHARAGRAFF 1 ATODLEN 14**
**HYSBYSIAD TRAFFIG DROS DRO**
**(DARGYFEIRIO LLWYBR TROED 55 LLANGRALLO UCHAF)**
**DARGYFEIRIO LLWYBR CYHOEDDUS RHIF 2 2025**

Ar 14/01/2026 cadarnhaodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr y gorchymyn uchod.

Effaith y Gorchymyn a gadarnhawyd fydd dargyfeirio'r rhan honno o Lwybr Troed 55 Llangrallo Uchaf sy'n dechrau ym Mhwynt A (Cyfeirnod Grid SS 9362 8465) ac yn parhau i gyfeiriad cyffredinol y de am 185 metr hyd at Bwynt B (Cyfeirnod Grid SS 9365 8447), ac yna'n parhau i gyfeiriad cyffredinol y de-ddwyrain am 250 metr hyd at Bwynt C (Cyfeirnod Grid SS 9381 8429) lle mae'n ymuno â Llwybr Troed 37 **i** ran newydd o lwybr troed sy'n dechrau wrth y gyffordd â Llwybr Troed 37 ym Mhwynt D (Cyfeirnod Grid SS 9395 8439) ac yn parhau i'r gorllewin am 8 metr hyd at Bwynt E (Cyfeirnod Grid SS 9395 8440), yna'n parhau i gyfeiriad cyffredinol y gogledd-ogledd-orllewin am 201 metr hyd at Bwynt F (Cyfeirnod Grid SS 9386 8458) cyn parhau i gyfeiriad cyffredinol y gogledd-ddwyrain am 19 metr hyd at Bwynt G (Cyfeirnod Grid SS 9387 8459), yna'n parhau i gyfeiriad cyffredinol y gogledd-ogledd-orllewin ar hyd ffin cae am 99 metr hyd at Bwynt H (Cyfeirnod Grid SS 9382 8467), yna'n troi i'r gorllewin ac yn parhau am 195 metr hyd at Bwynt I (Cyfeirnod Grid SS 9363 8463) yna'n troi i'r gogledd-ogledd-orllewin ac yn parhau am 22 metr i ailymuno â Llwybr Troed 55 wrth Bwynt A (Cyfeirnod Grid SS 9362 8465) fel y dangosir ar fap y gorchymyn.

Bydd y Llwybr Troed yn cael ei gyfyngu gan gât cae i BS 5709:2018 ym Mhwynt E (Cyfeirnod Grid SS 9395 8440), a dwy gât cerddwyr i BS 5709:2018 ym Mhwynt X1 (Cyfeirnod Grid SS 9364 8463) a Phwynt X2 (Cyfeirnod Grid SS 9364 8463).

Mae copi o'r gorchymyn wedi'i gadarnhau a map y gorchymyn wedi'u gosod a gellir eu gweld am ddim ym mhrif dderbynfa Swyddfeydd Dinesig Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn y cyfeiriad isod rhwng 8.30am a 5pm o ddydd Llun i ddydd Iau a 8.30am i 4.30pm ar ddydd Gwener. Gellir cael copïau o'r Gorchymyn a'r map am ddim. Fel arall, mae copi o'r gorchymyn a'r map hefyd ar gael drwy gysylltu â: rightsofway@bridgend.gov.uk / ffôn: 01656 642537) neu gellir eu harchwilio ar-lein yn: https://www.penybontarogwr.gov.uk/cyngor/hysbysiadau-cyfreithiol-a-gorchmynion/.

Daw'r gorchymyn hwn i rym ar 12/02/2026 ond os yw unrhyw unigolyn sydd wedi'i dramgwyddo gan y gorchymyn eisiau cwestiynu ei ddilysrwydd, neu ddilysrwydd unrhyw ddarpariaeth ynddo, ar y sail nad yw o fewn pwerau'r Ddeddf uchod, neu ar y sail na chydymffurfiwyd ag unrhyw un o ofynion y Ddeddf, neu unrhyw reoliad a wnaed dan y Ddeddf mewn perthynas â chadarnhau'r gorchymyn, gall ef, neu hi, dan adran 287 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, wneud cais i'r Uchel Lys am unrhyw un o'r rhesymau hyn, o fewn 6 wythnos i'r dyddiad y cyhoeddir yr hysbysiad fel sy'n ofynnol ym mharagraff 7 Atodlen 14 y Ddeddf honno.

Os oes angen yr hysbysiad hwn arnoch mewn fformat arall, er enghraifft, print mwy, sain, braille neu ffacs, cysylltwch â'r Adran Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoliadol yn y cyfeiriad isod neu drwy ffonio'r Ganolfan Gwasanaethau Cwsmeriaid ar 01656 643643. Mae'r Cyngor yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Bydd unrhyw ohebiaeth a dderbynnir yn y Gymraeg yn cael ei hateb yn y Gymraeg ac ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi.

**DYDDIAD:22/01/2026**

K Watson, Prif Swyddog, Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, AD a Pholisi Corfforaethol – Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 4WB.
K Watson, Chief Officer Legal and Regulatory Services, Human Resources and Corporate Policy – Chief Executive's Directorate, Bridgend County Borough Council, Civic Offices, Angel Street, Bridgend CF31 4WB.